EISTEDDFOD YR URDD BRYCHEINIOG A MAESYFED 2018

Rhif 137 – Llefaru Unigol Bl 5 a 6 (D)
'Dyn y Tywydd' – Zorah Evans

Copi o'r gerdd ar gael o Adran yr Eisteddfod

Dyn y Tywydd

Neithiwr ar y teledu,
Roedd y dyn â'r map yn sôn
Am dywydd Cymru heddiw
O Fynwy i ben draw Môn.

"Bydd hi'n braf bore fory
Ar hyd a lled Cymru.

Erbyn amser cinio
Bydd yr haul yn cilio.

Erbyn amser te
Bydd cymylau yn y De.

Ar ddiwedd y pnawn
Cawodydd a gawn.

Gyda'r nos bydd taranau
Ar hyd y glannau."

Ond pan godais heddiw
Edrychais yn syn.
Roedd eira ym mhobman
A'r byd yn wyn.
Un sy'n dweud celwydd
Yw dyn y tywydd.

Zohrah Evans